

Eisteddfod yr Urdd Maldwyn 2024

Cystadleuaeth 165 - Perfformiad theatrig o sgript bl 7,8 a 9

(D) 'Hedyn' – Caryl Lewis

(Mae'n bosib newid cenedl y cymeriadau a'r dafodiaith)

Tri cymeriad – Tadcu, Gracie, Marty

Tadcu Wel beth yw e?

Y ddau ddim yn ymateb

Tadcu Wel?

Marty O, ie, pwmpen yw hi.

Tadcu O'r diwedd. Ro'n i'n meddwl fyddet ti byth yn dyfalu. Ond di hon ddim yn bwmpen gyffredin. O na! Mae hon yn bwmpen Anferthol Atlantaidd, sy'n mynd i dyfu i faint car.

Gracie yn chwervhin

Tadcu Mae hon yn mynd i dyfu mor fawr fel bydd pobl yn gallu ei gweld filltiroedd i ffwrdd.

Y ddau Beth?

Tadcu Hon gyfeillion yw'r cynllun mawreddog.

Marty Y cynllun mawreddog yw tyfu pwmpen fawr?

Tadcu Paid a siarad fel na. Nid dim ond pwmpen fawr fydd hon, o na. Bydd hi'n enfawr... y bwmpen fwyaf yn y byd.

Gracie Y bwmpen fwyaf yn y byd?!

Tadcu Ie. Dyma be sy'n mynd i ddigwydd. Dewis yr un gorau. Ei drin fel brenin.

Y ddau Fel brenin?

Tadcu Ei fwydo tan iddo dyfu'n dew

Y ddau Tyfu'n dew?

Tadcu Dim ond y cam cyntaf yw tyfu y bwmpen.

Y ddau Cam cyntaf?

Gracie Beth yw cam dau?

Tadcu Cam dau yw'r peth gorau?

Marty Y peth gorau?

Tadcu Bydd cam dau yn ffrwydro'ch pen?

Gracie Ffrwydron pen?

Marty A cam dau yw?

Tadcu Ma hynna yn syrpreis.

Gracie O tadcu.

Marty Paid neud hyn.

Tadcu Breuddwydiwch am bethau mawr.

Y ddau Pethau mawr?

Tadcu Nawr, dewch. Mae gwaith i'w wneud.

Gracie Pa waith?

Marty O mam bach beth yw'r hogla 'na?

Tadcu Hwn yw sylfaen y te pwmpen.

Gracie Gwymon?

Marty Llysnafedd?

Tadcu Mae'n rhaid ei ferwi yn dda.

Gracie Chi o ddifri?

Tadcu Dwi gant y cant o ddifri.

Marty Ydych chi am ddechrau cynnau tân?

Tadcu Ydw – sefwch nol.

Gracie Wow – maen dechrau berwi.

Marty A drewi.

Tadcu Ac mae'n barod – barod i'r bwmpen.

Gracie Awn ni felly.

Marty Ie, i dyfu y bwmpen fwyaf yn y byd.